

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2014 Rhif 397



Gweini'r cawl ar Noson Cawl a Chân y Neuadd Goffa. Ond beth ddigwyddodd i'r lletwad? Ceir yr ateb ar dud. 4.

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4
Cawl a Chân

tud 9
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Difrod Gwyntoedd Chwefror

Er bod y gwanwyn wedi cyrraedd... gobeithio...mae olion dinistr gaeaf gwlyb a gwyntog i'w gweld ar draws yr ardal o hyd. Mae'n wir na chawsom yr un difrod ag a ddioddefodd Aberystwyth a Borth ond roedd y gwyntoedd mawr a darodd yr ardal hon, yn arbennig ar 12 Chwefror, yn ddigon dychrynlyd.



Pyst rygbi'r ysgol yn yfflon



Torri'r dderwen ger Tŷ Hen

Gwelwyd difrod i dai allan ffermydd y cylch. Collwyd rhannau o do'r sied lle y cedwir defaid Berthlwyd, er enghraifft. Ar yr un pryd syrthiodd nifer o goed, gan gadw torrwyrr coed fel Dafydd Williams, Pen-y-wern, yn brysur iawn. Achosodd hyrddiadau mawr ddydd Mercher y 12fed i drigolion Tal-y-bont golli trydan am rai oriau ac yn Nhrefddôl a Thaliesin, doedd dim trydan am ddiwrnod neu ddau.

Efallai mai'r digwyddiad mwyaf peryglus oedd y coed yn syrthio ar gae chwarae Ysgol Tal-y-bont. Drylliwyd y pyst rygbi wrth i goeden gwympo ar eu traws ond yn ffodus iawn nid oedd y plant yno ar y pryd. Wedi'r digwyddiad, penderfynwyd torri'r coed tal sy'n amgylchynu'r cae er mwyn diogelwch yn y dyfodol.

Syrthiodd derwen enfawr o dir Tŷ Hen yn ystod hyrddiad cryfaf hwyr y prynhawn. Llwyddodd hon i gau'r lôn i Dŷ Hen gyda'i gwreiddiau, a'r ffordd sy'n arwain i Bentre-Bach gyda'i changhennau, cymaint oedd ei thaldr. Bu sawl un wrthi am oriau yn clirio'r ffordd yn gyntaf ac yna'n llenwi'r twll yn y lôn i'r fferm. Roedd y ffordd ar gau dros nos ond oherwydd ymdrechion nifer sylweddol o ddynion agorwyd y ffordd cyn amser cinio y diwrnod canlynol. Credir bod y dderwen hon tua dau gan mlwydd oed.

Hyd y gwyddom nid hon oedd yr unig goeden yng nghylch Tal-y-bont i achosi trafferth i deithwyr, a diolch i'r drefn am hynny.

Ceir golwg ychydig yn wahanol i'r arfer o'r stormydd yn y golofn Y Gair Olaf ar dudalen 9.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 832076
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Annwyl olygydd,

Ry'n ni i gyd yn gwybod fod costau byw yn gwasgu ar lawer o bobl yng Ngheredigion. Mae ynni i wresogi tai yn enwedig yn ddrud iawn. Bu llawer o sylw yn ddiweddar i gostau ynni, ac mae'n siwr y bydd mwy o son adeg y Gyllideb

Ond mae'r ddadl Lundeinig yn dueddol o anghofio fod nifer o bobl (bron 70% o boblogaeth Ceredigion) ddim yn agos at bibell nwy, felly ddim yn medru derbyn y prisiau rhataf.

Rwyf innau a Phlaid Cymru yn y sir yn casglu gwybodaeth ar gyfer ymgyrch i gael chwarae teg i Geredigion, ar gostau byw ac ynni.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai pobl yn cymryd rhan ar-lein trwy'r ddolen yma:
www.surveymonkey.com/s/holiad
urynnicedigion

Diolch o galon,
Mike Parker
Ymgeisydd San Steffan, Plaid Cymru Ceredigion.
32, Heol y Wig, Aberystwyth

Annwyl Olygydd

Eisteddfod Aberystwyth

A gaf i drwy eich papur bro wahodd eich darllenwyr i gystadlu yn Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth.

Cynhelir yr eisteddfod eleni ar ddydd Mercher, Ebrill 30, gan gychwyn am 4 y prynhawn. Fel y llynedd mae yna amrywiaeth o gystadlaethau - o'r traddodiadol (unawd, llefaru, partion canu a cherddorol, a chorau), i'r ysgafn (cystadleuaeth Sgen Ti Dalent? a bwyta cacen Jaffa!), i'r annisgwyl (trefniant blodau, a ffotograffiaeth), i'r arferol (englyn, limrig a thelyneg). A llawer mwy wrth gwrs. Mae rhywbeth i bawb - o bob oed, yn ddysgwyr ac yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Cofiwch, steddffod leol yw hon - i bobl Gogledd Ceredigion. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i gystadlu yw Ebrill 10fed ac mae pob darn o waith cartref i ddod i law erbyn Ebrill 20fed. Mae'r rhaglen ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru: www.steddfota.org neu ar gael o Siop Inc, Siop y Pethe ac amryw o lefydd eraill, neu drwy ffonio Dana Edwards 01970 623003.

Felly dewch yn llu i gefnogi eisteddfod ifancaf Cymru.
Yn gywir iawn
Dana Edwards, Cydlynnydd

Annwyl Olygydd

Cyfle i Hyrwyddo Eich Busnes

Os ydych am hyrwyddo busnes neu gymdeithas newydd cofiwch fod modd gwneud hynny am ddim drwy ychwanegu eich manylion i Gyfeiriadur Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur yn ymddangos yn holl ddyddiaduron Y Lolfa ac ar ein gwefan. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yma: www.ylolf.com/cyfeiriadur a llenwi ffurflen ar-lein syml. Fel arall mae croeso i chi fy ffonio ar 01970 832304 neu ddanfôn e-bost i sonia@ylolf.com.

Mae croeso i chi hefyd wirio gwybodaeth am sefydliad sydd yn y cyfeiriadur yn barod yn yr un modd.

Pob hwyl

Sonia Hughes - sonia@ylolf.com

Y Lolfa, Talybont, Ceredigion SY24 5HE

Dyddiadur

Mawrth

16 Bethel 10 Gwasanaeth

Teulu

Nasareth

Rehoboth 10 Adrian

Williams

Eglwys Dewi Sant 11

Boreol Weddi

20 Neuadd Goffa

Sefydliad y Merched

Llwybr Treftadaeth yr

Eglwys (Ann Poole)

23 Bethel 5 Gweinidog (C)

Nasareth 5 Parch Judith

Morris

Rehoboth 2 Parch Ifan

Mason Davies

Eglwys Dewi Sant 11

Gwasanaeth Teuluol

25 Llanfach Taliesin

Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn

Datblygiad o'r Dafarn yn

Aberystwyth yn y 19fed

ganrif (Will Troughton)

27 Yr Ystafell Haearn,

Eglwysfach

Ffilm: 7 yr hwyr

29 Neuadd Goffa

Bore Coffi rhwng 10 a 12

o'r gloch (Elw i Gylch

Meithrin, Tal-y-bont)

30 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 10 John Hughes

Eglwys Dewi Sant 10

Gwasaneth Undebol yn

Eglwys Llanfihangel

-Genau'r- Glyn

Ebrill

1 Llanfach, Taliesin 7 o'r

gloch

Sefydliad y Merched,

Taliesin

'Ailgylchu fyny' (Dianne

Logan)

4 Yr Ystafell Haearn,

Eglwysfach

Noson Gemau Bwrdd, 7 yr

hwyr

6 Bethel 10 Uno yn Noddfa

Nasareth 10 Bugail (C)

Rehoboth 10 Parch

Gordon McDonald

Eglwys Dewi Sant 11

Boreol Weddi

8 Chwirydd Rehoboth

Te prynhawn yng Nghastell

Glandyfi

13 Bethel 10 Gweinidog

Nasareth

Rehoboth 5 Huw Roderick

Eglwys Dewi Sant 11

Gweler manylion ar yr

hysbysfwrdd tu allan i'r

eglwys



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Iesu, yr aberth sy'n maddau** (7.30, 12 & 26 Mawrth, 9 Ebrill). Cwrs dan arweiniad Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.
- **Rosa** (7.30, 16-17 Mawrth). Cwmni Morlan yn cyflwyno drama gan John Roberts am Rosa Parks. Tocynnau (£3) ar werth nawr!
- **Rhestr Llyfr y Flwyddyn Answyddogol** (7.30, 24 Mawrth). Catrin Beard ac Elwyn Jones yn dewis ac yn trafod eu hoff llyfrau. Mynediad: £3.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk
Morlan, Marju Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn a Fal, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Ebrill fydd Phil a Megan (gwynionydd@bunternet.com; 832384) gyda Sion Pennant yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 4 Ebrill, a bydd y papur ar werth ar 11 Ebrill.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Jan Boorman, Bronallt, Tre Taliesin, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Braff iawn gweld bod Mai Leeding, Glannant, yn gwneud cystal ar ôl ei llawdriniaeth hithau yn Lerpwl ym mis Chwefror.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Dr Iolo ap Gwynn, Garreg Wen, Tal-y-bont a fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Cymdeithas Hanes Eglwysfach

Oherwydd y tywydd garw gohirwyd cyfarfod fis Chwefror. Ail drefnir y noson hon 17 Mawrth 7.00pm yn yr Ystafell Haearn. Dewch â hen luniau, cardiaid post, hen ddogfennau neu eitemau hanesyddol gyda chi ar gyfer trafodaeth.

Emyn yn Dod i'r Brig

Daeth emyn o waith y diweddar Barchedig D.Gwyn Evans, cyn weinidog capel Bethel a thad Dr Geraint Evans, Garn Wen, Tal-y-bont, i'r brig yng ngymnafa Capel Horeb, Llanrwst yn ddiweddar. Dewiswyd ei emyn 'Pan rwystrir ni gan bethau'r llawr' (239 yn Caneuon Ffydd) gan y gynulleidfa fel eu hoff emyn. Darlledwyd y gymnafa ar y rhaglen, 'Caniadaeth y Cysegr', ddiweddd mis Chwefror.

Ganwyd y Parch D.Gwyn Evans union ganrif yn ôl i eleni.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Holly Davies a Nathan sydd newydd ddod i fyw i 3 Tanycoed, Tal-y-bont.

Yn yr Ysbyty

Pob dymuniad da am wellhad buan i Barbara Jenkins, Hafod Ifan a Sally Howard Maes y Deri sydd newydd fod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.



Pobl a Phethe



Ysgol Sul Bethel

Dyna swm a chwerthin oedd yn festri capel Bethel, fore Sul, 9 Mawrth. Roedd y dosbarth oedolion yn y capel yn cael cryn drafferth i glywed ac i ganolbwyntio ar eu gwers! Beth oedd yn mynd ymlaen yna? Wel, Zoe Glynn Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuencid Gogledd Ceredigion oedd gwestai'r Ysgol Sul ac roedd hi wedi paratoi amrywiaeth o gemau a gweithgareddau ar gyfer yr aelodau. Cafodd Zoe ei phenodi i'r swydd gyda Menter Gobaith, sef Menter Gydenwadol Eglwys Gogledd Ceredigion ym mis Tachwedd ac ers hynny mae wedi bod yn brysur yn arwain sawl grwp o CIC, yn ymweld ag ysgolion ac yn dod i adnabod yr ardal. Diolch i Zoe am fore hwyllog dros ben. Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y gwasanaeth teulu fore Sul nesaf ac yna'n paratoi ar gyfer Gwasanaeth y Pasg.



Te Cymreig

Pnawn Sadwrn, 1 Mawrth, trefnwyd Te Cymreig gan bwyllgor Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn, yn Llan Fach. Meddai Meinir Fleming, un o'r trefnwyr, "Roedd yn gyfle i ddathlu Dydd Gwyl Dewi, i gymdeithasu ac i godi arian tuag at y sioe arddwriaethol".

Ac roedd yn amlwg yn ystod y prynhawn fod pawb yn mwynhau'r digwyddiad yn fawr.

Pasio Prawf Gyrru

Da iawn ti, Lois Jones, Gellimannwydd, Tal-y-bont ar basio dy brawf gyrru ar y cynnig cyntaf. Pwyll pia hi nawr!

Yr Ystafell Haearn Eglwysfach

Dangosir y ffilm "Once Upon a Time in the West" yn yr Ystafell Haearn nos Iau 27 Mawrth 7.00 (tystysgrif 15). Cyfraniadau tuag at yr Ystafell Haearn. Cafwyd noson ddifyr yn chwarae amrywiol gemau yn ddiweddar gan gynnwys gwyddbwyll, Connect 4 a Bananagram! Croeso ichi ddod i'r noson nesaf nos Wener 4 Ebrill. 7.00pm. Nid oes rhaid dod â gêm.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i ti Rhian Jones, Ardwyn, Tal-y-bont yn dy swydd newydd fel Cynorthwydd dosbarth yn Ysgol Penllwyn.

Braff hefyd fydd croesawu Hollie Morgan, Brynawelon, Tal-y-bont yn ôl adre gan ei bod wedi derbyn swydd nysio yn Ysbyty Bronglais ar ddiweddd ei chwrs. Bydd Hollie yn dechrau ar ei swydd yn ystod yr haf.

Gwellhad Buan

Brysiwch wella, Glenda Jenkins, Ffwrnais, sydd newydd gael triniaeth yn yr ysbyty. Bydd croeso mawr yn eich aros yn ôl yn Ysgol Tal-y-bont.

18 Oed

Llongyfarchiadau i Eilir Huws, Henllan, Tal-y-bont a ddathlodd ei benblwydd yn 18 oed ar 29 Chwefror - wel 1 Mawrth eleni!

Ymgeisydd

Mae mab cyn-brifathro ysgol Tal-y-bont, Geraint Thomas, wedi'i ddewis yn ymgeisydd seneddol dro y Blaid Lafur yng Ngheredigion. Mae Huw Thomas, a fagwyd yn ardal Aberystwyth, bellach yn byw yng Nghaerdydd.

Cyngerdd

Cynhelir Cyngerdd Sgarmes yn y Tabernacl, Machynlleth nos Sadwrn 15 Mawrth, 7.30pm. Pris mynediad: £10 i oedolion a £5 o dan 16 oed. Elw tuag at Gyfeillion y Tabernacl.

Am Ddim

Fideos VHS Cymraeg i blant, wedi'i recordio o deledu S4C. Ar gael am ddim gan Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont (01970 832751)



Cawl a Chân

Cafwyd noson lwyddiannus eto eleni i ddathlu Mawrth y 1af yn Nhalybont.

Digon o gawl a digon o ganu a digon o ddwylo parod i osod a gweini, a golchi cant o fowlenni!

Roedd Linda Griffiths a'r merched yn ddewis da ar gyfer yr adloniant gyda canu hyfryd a dewis o ganeuon traddodiadol a chyfoes a lleisiau'r bedair yn asio'n berffaith. A Linda, wrth gwrs, yn arwain gydag ambell sylw i godi gwên.

Bu un anffawd bach – teclyn bach yn mynd adre gyda'r person anghywir! A dyma i chi ymateb ein bardd cocos!

Yn noson hwyl Gŵyl Ddewi
Diflannodd mwy na chawl,
Cans lletwad ein cadeirydd
A gipiwyd yn ddi-hawl.

I droi y cawl oedd chwilboeth
Fe ddaeth â dwy neu dair
O letwadau pren yn burion -
Llygadwyd un gan Mair.....



Ond rhag i chi boeni mae'r lletwad wedi dychwelyd i'r gegin gywir erbyn hyn.

Byddwn ni'n trefnu adloniant ar gyfer blwyddyn nesaf yn fuan a byddai'n braf cael awgrymiadau ar gyfer beth i'w wneud yn 2015. Croeso i chi eu hanfon at Bwyllgor y Neuadd.

Diolch eto i bawb a fu'n rhan o lwyddiant y noson.

CMSD



Ysgol Llangynfelyn



Diwrnod y Llyfr



Pen-blwyddi'r Moch Cwta

Gwaith Celf Ruth Jên

Diwrnod Crempog

Parêd Gŵyl Ddewi Aber

Mynychodd llawer o'r ardal hon y parêd a gynhaliwyd ar 1 Mawrth yn Aberystwyth, gan gynnwys rhai o blant ysgol Tal-y-bont a'u rhieni. Bu Medi Evans ac Alaw Griffiths yn clocio ar y llwyfan ac yn cynorthwyo i gario'r brif faner ar flaen yr orymdaith oedd Gwenallt Llwyd Ifan.



Dau o ddisgyblion ysgol Tal-y-bont, Heddwyn a Dyfri wedi'u gwisgo'n bwrpasol ar gyfer yr achlysur.



Medi ac Alaw'n clocio



Geraint Evans yn cynorthwyo i gario baner y Morlan.

Ysgol Llangynfelyn

Ymwelydd o Lydaw

Cafwyd cwmni athro o Lydaw sef Monsieur Samuel i ddosbarth Miss Jones. Mae Samuel yn teithio o amgylch Ewrop yn rhannu chwedlau o Lydaw gyda chymunedau. Dysgodd y plant sut i gyfrif i 10 mewn Llydaweg a dysgont ddawns draddodiadol Lydaweg. Recordiodd Samuel Miss Jones yn canu 'Mi welais Jac y Do' ar gyfer ei flog sy'n dilyn hanes ei daith.

Gwaith Celf Ruth Jên

Daeth Ruth Jên i'r ysgol i ddangos ei gwaith i Ddosbarth Miss Jones. Ar ôl edrych ar y 'Menywod Cymreig' aethont ati i argraffu rhai eu hunain. Mae'r lluniau yn edrych yn effeithiol iawn a diolchwn yn fawr iawn i Ruth Jên am rannu ei phrofiadau a'i harbenigedd gyda'r plant.

Diwrnod Crempog

Mwynhaodd y plant wneud a bwyta crempog ar Ddydd Mawrth Ynyd. Cafodd pawb gyfle i daflu eu crempog yn y badell ffrio a dim ond un cwmpodd ar y llawr!

Pythefnos Masnach Deg

Gan ein bod yn ysgol Fasnach Deg mae'r plant yn ceisio annog eu rhieni i brynu nwyddau Masnach Deg. Fel rhan o'n gwaith yn ystod y bythefnos cafwyd Gwledd Masnach Deg yn yr ysgol. Daeth y plant ag amrywiaeth o fwydydd Masnach Deg i'r ysgol i rannu gyda'u ffrindiau. Cafwyd lawer o siocled, bananas, cnau a ffrwythau sych i flasau.

Diwrnod y Llyfr

Cafwyd ddiwrnod prysur iawn ar Fawrth y 6ed i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Gwisgodd y plant fyny fel cymeriad allan o lyfr. Daeth Morgan Tomos draw i'r Caban at ddosbarth y Cyfnod Sylfaen i ddarlenn ei stori newydd 'Alun yr Arth a'r Wy Pasg' sydd heb ei gyhoeddi eto. Gwylodd y plant fideo am sut mae gwneud llyfr a buont yn tynnu lluniau i gyd-fynd â'u storïau. Diolchwn yn fawr iawn i Morgan ac edrychwn ymlaen at weld llyfr newydd Alun yr Arth ar werth yn y siopau.

Pen-blwyddi'r Moch Cwta

Cafwyd parti arbennig i ddathlu pen-blwyddi moch cwta'r ysgol. Roedd Liwsi yn bedair oed a Lola yn ddwy oed. Cafodd y plant gacen pen-blwydd a'r moch cwta lond eu bol o foron a bresych.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau mawr iawn i Ben Phillips, Blwyddyn 5 am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth 'tumbling' yn Stoke-on-Trent yn ddiweddar. Enillodd Ben y 'Dragon Cup' i fechgyn 9 a 10 oed. Pob lwc iddo yn ei gystadleuaeth nesaf fydd yn ei roi mewn safle cenedlaethol yn erbyn bechgyn ei hoed yn genedlaethol.

Eisteddfod Ysgol

Bydd ein Heisteddfod Ysgol ar Ddydd Iau Mawrth 20fed am 1 o'r gloch yn yr ysgol. Bydd lluniaeth ysgafn ar werth a bydd cyfle i ennill hamper o nwyddau Cymreig yn y raffl. Croeso cynnes iawn i bawb.

Sefydliad y Merched Eglwysfach

Daeth y peiriannydd Ian Tansley atom i sgwrsio am ei waith a'i gwmni "Sure Chill". Mae'r cwmni wedi datblygu oergelloedd arbennig ar gyfer eu defnyddio yn y gwledydd datblygol sydd yn defnyddio ynni yr haul i'w rhedeg. Mae yr oergelloedd hyn yn gwneud gwaith hanfodol yn storio a chludo cyflenwadau meddygol, megis gwaed, inswlin a brechiadau i ardaloedd anghysbell. Mae wedi bod yn gweithio i UNICEF, Achub y Plant ac Oxfam, ac mae project diweddar wedi denu \$100,000 gan Sefydliad Gates.

Cynhelir bore casglu sbwriel ddydd Sadwrn 29 Mawrth, am 10a.m.



Yn dilyn llythyr Gwilym Jenkins ynglŷn â chwalu tŷ Ffos-fudr yn rhifyn diwethaf *Papur Pawb* cafwyd ymateb gan Keith Evans, Bont-goch. Uchod ceir llun o'r tŷ a dynnwyd ganddo yn lled ddiweddar. Diolch i Keith ac i John Evans am drefnu hyn. Fel sy'n briodol, mae'r cwestiwn a godwyd yn y llythyr yn nwylo'r Cyngor Bro.

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Cyn oes Satnavs a Google Earth, ble fyddwch yn mynd i chwilio'r ffordd i rhywle, neu i wybod am ffinau sir neu plwyf? I un o fapiau'r O.S., wrth gwrs. Os mae'r map yn ymddangos fod rhywbeth fel y fel, felly y mae yn sicr. Ond nid oedd mapiau mor dibynadwy ers talwm. Pan oedd dyluniwr y mapiau ffordd cyntaf wrth ei waith, byddai'n mynd at berchenogion y plasdai ar y ffordd – os nad oedd y bonheddwyr yn barod i danysgrifio am gopi o'r map, ni fyddai ei dŷ yn ymddangos ar y map gorffenedig. Nid oes angen esbonio sut mae anifail yn nodi ei diriogaeth; ffordd y tîrfeiddiannwr o ddangos ei diriogaeth fyddai gwneud map. A phetai'r ffiniau ychydig bach yn helaethach ar y map nag yr oedd o'r blaen, wel, sut mae profi hynny pan maent i lawr mewn du a gwyn?

Ar nos Fawrth Chwefror 25 cafodd y Gymdeithas sgwrs diddorol iawn gan Huw Thomas o'r Llyfrgell Genedlaethol ar hanes mapiau Ceredigion oedd yn dangos mor lwcus rydym heddiw, pan mae gwrthrychedd yn bwysicach na mwmpwy ar ein mapiau modern.

Dewch i'r cyfarfod nesaf yn Llanfach, Taliesin, ar 25 Mawrth i glywed William Troughton yn olrhain hanes tafarndai'r ardal.

Celf a Chrefft yn Eglwysfach

Cynhelir arddangosfa celf a chrefft ar 15-17 Awst 2014 yn Eglwys Sant Mihangel a'r Ystafell Haearn, Eglwysfach. Os dymunwch archebu lle i arddangos a gwerthu eich gwaith celf neu grefft yn y digwyddiad hwn mis Awst cysylltwch ag Alison (01654 781 322) neu Sheila (01654 781 332).

Cynhelir hefyd gystadleuaeth celf ar gerdyn post gyda'r bwriad o'i atgynhyrchu yn gerdyn post i'w werthu er budd Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach. I gystadlu anfonwch ddarluniad du a gwyn o'r Eglwys (tu mewn neu tu allan yr adeilad) at Janie Agnew, Garth House, Ffwrnais, erbyn 15 Ebrill. Gwobr £20 i'r darlun buddugol.

Cylch Meithrin Tal-y-bont - Cynorthwyydd

Dymuna Cylch Meithrin Tal-y-bont hysbysebu am Swydd Cynorthwyydd i weithio mewn awyrgylch hapus a bywiog. Swydd o 12 awr yr wythnos yw hon ar foreau Llun i Iau o 9:00 tan 12.00.

Mi fydd cyflog i'w drafod yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau. Yn ddelfrydol ddylir yr ymgeisydd llwyddianus wedi cwblhau y canlynol, sef NVQ lefel 3 ym maes Gofal Plant ac ymwybyddiaeth o'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn hanfodol.

Dymuna Bwyllgor Rheoli Cylch Meithrin Tal-y-bont benodi person brwdfrydig ac ymroddedig sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r gallu i gydweithio'n dda gyda staff, rhieni ac aelodau'r pwyllgor.

Bydd angen sicrhad fod gan yr ymgeisydd wiriad GDG (DBS check) cyn iddynt fedru dechrau'r swydd.

Os oes diddordeb gennych yn y swydd cysylltwch â Catrin Mason am ffurflen gais ar cg_mason@yahoo.co.uk.

Dyddiad Cau: 21/3/14

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sioe nos Lun, 3 Mawrth, yn y Neuadd Goffa. Cafwyd adroddiad addawol iawn gan y Swyddogion ac edrychir ymlaen nawr at sioe eleni. Talodd y gadeiryddes deyrnged clodwiw i dri aelod sydd wedi bod yn weithgar a ffyddlon i'r Sioe am flynyddoedd, sef Goronwy Jones sy'n ymddeol o'r pwyllgor, Howard Owens sy'n ymddeol o fod yn Drysorydd a Dewi Evans sy'n ymddeol o fod yn Brif Stiward y Babel.

Llywydd y Sioe eleni yw **Mr Howard Owens**, Frondirion.

Etholwyd y Swyddogion a ganlyn am 2014:

Cadeiryddes – **Dr Menna Morgan**, 4 Dôl Pistyll

Is-gadeirydd – **Dafydd Jenkins**, Tanrallt

Trysorydd – **Helen Owens**, Crud yr Awel, Taliesin

Trysorydd Cynorthwyol – **Howard Owens**, Frondirion

Ysgrifenyddes Gyffredinol – **Janet Jones**, Llwynglas

Ysgrifenyddes y Babel – **Dilys Morgan**, Alltgoch

Rheolwr y Maes – **Emyr Davies**, Llety Ifan Hen

Cyfarwyddwr y Sioe – **Teulu Bryngwynmawr**

Bydd y Sioe yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 23 Awst, ar gaeau'r

Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau, sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun gyntaf o bob mis yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Penodwyd y Canon Andrew Loat yn ficer â gofal plwyfi Elerch, Capel Bangor, Penrhyn-coch a Llanbadarn Fawr. Bydd yn cael ei sefydlu mewn gwasanaeth arbennig yn Llanbadarn ar 8 Mai.

Yn wreiddiol o Swydd Caint, astudiodd yn Aberdeen cyn dod i Gwm Cynon fel cynorthwydd plwyf adeg Streic y Glowyr. Bu'r profiad hwn yn ddylanwad pwysig arno, ac fe'i ordeiniwyd yn Eglwys Gadeiriol Llandâf yn 1987. Bu'n gurad yn Llangynwyd, Maesteg lle dechreuodd ddysgu Cymraeg, a'i loywi ar Gwrs Wlpan yn Llambed.

Ar ôl ail guradiaeth yn Llansamlet, ar gyron Abertawe, bu'n gwasanaethu yn Sir Faesyfed mewn tair gofalaeth wahanol, yn cynnwys gweithredu fel Deon Gwlad Maenielydd.

Edrychwn ymlaen at groesawu Canon Loat i'n plith.



Teyrnged

D. Bennett. M. Jenkins, Ynys Capel

Collodd yr ardal hon un o'i phlant hynaf a mwyaf annwyl, ddydd Mercher 5ed o Chwefror 2014 yn 89 mlwydd oed. Treuliodd Bennett ei oes yn amaethu yn Cerrig Caranau ac Ynys Capel. Etifeddodd un o fuchesi gwartheg duon Cymreig hynaf Cymru gan ei rieni ac 'roedd yn meddwl y byd ohoni. Bu'n deyrngar iawn i'r fuwch ddu, cadwdd ei ddiddordeb ynddi ar hyd ei oes. Llwyddodd i wella'r fuches a'i throsglwyddodd i'r genhedlaeth nesaf, hyd yn oed yn well buches na chafodd e' hi. Bu'n barnu a dangos gwartheg duon mewn sioeau mawr a bach dros Brydain Fawr. Bu'n lwydd Cymdeithas Gwartheg Duon Cymru fel ei dad o'i flaen. Roedd yn ŵr craff iawn i



adnabod anifail. Fe welith yr ardal hon ei eisau yn fawr iawn, yn enwedig pwyllgor sioe Tal-y-bont a Gogledd Ceredigion.

Gwasanaethodd ar y pwyllgor yma am flynyddoedd maith, bob amser â barn adeiladol ganddo. Mwynhaodd fywyd i'r eithaf. Ei hoff beth oedd cael mynd i sioe neu farchnad i gael sgwrsio gyda phawb, bob amser a gwên unigryw a chroesawgar iawn ar ei wyneb, gwên mae ei wyrion wedi'i etifeddu.

Bu Bennett yn weithiwr diwyd ar hyd ei oes, ond er mor brysur y bu ar y ddaear yma, nid anghofiodd yr ochr ysbrydol o'i fywyd. Roedd cael mynychu gwasanaethau yn Rehoboth, Taliesin yn bwysig iawn iddo. Parchodd pob bugail fu'n ei fugeilio ac roedd croeso cynnes iddynt bob amser ar yr aelwyd.

Daeth cynulleidfâ grêf iawn o ran helaeth o Gymru i'r gwasanaeth diolch amdano, sydd yn dyst o'r parch oedd gan bawb tuag ato. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Menna ei briod, a fu yn deyrngar iddo am flynyddoedd maith, hefyd i'r plant, yr wyrion a'r gorwyrion, a oedd mor annwyl yn ei olwg.

Gwilym Jenkins

Dymuna Menna a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at 'Ambiwlans Awyr Cymru' a 'Does Dim Amser i Aros' Cangen Prydeinig y Galon Aberystwyth.

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612

07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

STORFA CARTREF a BUSNES

Storio Hyblyg Diogel

Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion



MID WALES
STORAGE

STORFA CANOLGARTH CYMRU

Ffôn—01654 703592

TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi Gynhesu

Ar Werth

Bocsys, Bwrllwm Llapio a deunydd pacio

Ymwelwch â'r siop arlein

www.boxshopsupplies.co.uk

www.midwalesstorage.co.uk

Heol y Dâl, Machynlleth, Powys, SY20 8JG

argraffu da am bris da



ylolfa

holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolf.com



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ffarwelio ag aelod o staff

Roedd yn ddiwedd cyfnod i un aelod o staff y Cylch yn ddiweddar wrth i ni ffarwelio ag Anti Ellyw. Bu Ellyw yn ran allweddol o'r Cylch am nifer o flynyddoedd ac wedi chwarae rôl ofalgar i gryn dipyn o blant y pentref ar ardal gyfagos. Yn sicr, bydd yna golled ar ei hôl yn y Cylch. Estynnwn ein llongyfarchiadau iddi ar ei swydd newydd a dymunwn bob lwc iddi i'r dyfodol. Hoffai'r pwyllgor, staff a rhieni ddiolch iddi am ei chyfraniad di-flino nid yn unig yn oriau'r Cylch ond yn y digwyddiadau cymdeithasool megis Partion Calan Gaeaf a'r cyngherddau nadolig. Diolch Anti Ellyw – paid a bod yn ddieithr.

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Daeth y plant yn llun yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig ar Ddydd Iau, 6 Mawrth i dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Hyfryd oedd gweld y brethyn cymreig, y cennin a'r cennin pedr yn cael eu gwisgo gyda balchder! Gwnaeth y criw bach fwynhau powlen cynnes o gawl hefyd!

Swydd

Rydym yn hysbysebu am Gynorthwydd gyda chymhwyster NVQ Lefel 3 i ymuno â'r Cylch am bedwar bore yr wythnos, Llun – Iau, 9yb – 12yp. Gweler manylion pellach y swydd ar wefan Mudiad Meithrin www.meithrin.co.uk/

Cronfa Eleri 2013

Cyhoeddwyd pwy oedd i dderbyn cymorth gan Gronfa Eleri eleni. O'r 18 o geisiadau, cefnogwyd 13 ohonynt. Cyfanswm y taliadau a gymeradwywyd eleni oedd £14,050, wedi ei rannu rhwng 'Cofio'r Rhyfel Mawr', 'Capel y Garn', 'Treialon Cŵn Defaid', 'Cae'r Odyn Galch', 'Cwmni Cletwr- Siop Cynfelyn', 'CIC Penrhyncoch', 'Horeb Penrhyncoch', 'Cylch Meithrin Tal-y-bont', 'Peldroed ieuenctid Tal-y-bont', 'Peldroed Tal-y-bont', 'Peldroed Bow Street', 'Sioe Llangynfelyn' ac 'Ysgol Rhydpennau'. Disgwylir y bydd y Gronfa ar agor eto i dderbyn ceisiadau ddiwedd mid Tachwedd 2014. Bydd hysbyseb yn Papur Pawb pryd hynny. Am ragor o fanylion am Grofa Eleri, ewch i wefan Y Gronfa: www.ynniamgen.com/CronfaEleri/Hafan.html

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Rwy' o hyd yn mwynhau pan mae S4C yn dod a rhaglen Pawb a'i Farn i Geredigion. Doedd rhifyn mis Chwefror o Aberystwyth yn ddim gwahanol, gyda chynulleidfia fywiog a gwybodys yn barod i roi sialens i ni'r panelwyr. Fel arfer, roedd y pynciau'n amrywiol. Trafodwyd effaith y stormydd ar Gymru, a'r toriadau llym sy'n wynebu ffermwyr oherwydd penderfyniad – anghywir yn fy marn i – Llywodraeth Cymru ar gymorthdaliadau Ewropeaidd. Cafwyd dipyn o gonsensws ymhlith y gynulleidfia ar yr angen i gadw gwasanaethau mewn ysbytai lleol, ac hefyd trafodaeth ddifys ar gyllid prifysgolion. Roedd rhai o'r farn na ddylid rhoi cymorthdal ffioedd i fyfyrwyr sy'n dewis mynd i Brifysgolion tu fas i Gymru, ond roedd gwahaniaeth barn. Difys iawn oedd sgwrsio ar ôl y rhaglen gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Penweddig.



Mynegodd y disgyblion farn gref a diddorol ar y pwnc, a does dim syndod, o ystyried fod Estyn wedi barnu safonau addysg Ceredigion fel y rhai gorau yng Nghymru! Llongyfarchiadau mawr i athrawon y sir a phawb a fu ynghlwm â sicrhau canlyniadau mor glodwiw. Rwy' wedi mwynhau mwy o dystiolaeth o gyrhaeddiad uchel disgyblion Ceredigion yn ddiweddar hefyd. Da oedd cwrdd â chriw Llambod yn y Cynulliad fel rhan o recordio rhaglen deledu Hacio. Cefais y fraint hefyd o fynychu Eisteddfod Ysgol Tregaron a gweld safon uchel y cystadlu yno, ac hefyd llongyfarchiadau gwresog i ddisgyblion Ysgol Aberaeron am ennill cystadleuaeth busnes yn ddiweddar. Pob lwc iddynt yn cynrychioli Cymru yn y rownd derfynol yn Llundain.

Parhau mae'r ymgyrchu i geisio sicrhau'n gwasanaethau iechyd. Yn dilyn deiseb effeithiol Cyfeillion Ysbyty Aberteifi – un o'r mwyaf a gyflwynwyd i'r Cynulliad erioed – bum i'n cwrdd â'r Gweinidog Iechyd i drafod y sefyllfa yn ne Ceredigion. Lleisais fy mhryderon am y penderfyniad diweddar i gau gwelyau, ac am yr ansicrwydd ynglŷn â'r cynlluniau a'r amserlen ar gyfer yr ysbyty newydd. Mae'n hollbwysig fod Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn ymrwmo yn gyhoeddus i gynlluniau pendant – ni allant wedyn daflu'r bai ar y llall. Mae gwaith y gweithgor sy'n ymchwilio i ddyfodol y gwasanaeth iechyd yn nalgylch Ysbyty Bronglais hefyd wedi cychwyn. Mi wn fod tystiolaeth gref yn mynd i gael ei gyflwyno ar yr angen i gadw gwasanaethau craidd fel mamolaeth a llawfeddygaeth yn lleol.

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar nos Lun, 10 Chwefror, i drafod yr ohebiaeth a'r materion a godwyd gan y gymuned. Bydd y Clerc yn hysbysu'r adrannau perthnasol ynglŷn â'r canlynol:

- Mae parcio ar y palmant yn broblem yn Nhaliesin gan achosi i bobl gyda chadair wthio â'r anabl i gerdded ar y ffordd oherwydd nad oes modd cerdded ar y palmant gan fod cerbydau wedi'u parcio arno. Hefyd yn ddiweddar achoswyd anhrefn ar y ffordd gan gerbydau oedd wedi parcio'n anniben ger y ciosc.
- Rydym yn dal i ofyn am arwyddion a goleuadau i rybuddio gyrwyr am y fynedfa i Erglodd gan fod cerbydau mawr weithiau yn creu rhwystr ar y ffordd wrth geisio mynd trwy'r fynedfa. Mae hwn yn ddarn peryg o ffordd o'r ddau gyfeiriad.
- Mae Gwefan y Cyngor Cymuned a grewyd yn ddi-dâl gan Dechnoleg Taliesin bron yn barod.
- Penderfynwyd gadael y praecept yr un fath â'r llynedd, sef £7,700.00.

Trafodwyd y ceisiadau am gymorth ariannol a dderbyniwyd drwy'r flwyddyn, ac fel yn y blynyddoedd cynt penderfynwyd cefnogi'r cymdeithasau lleol.

Derbyniwyd y cais cynllunio am borth wrth ddrws ffyrnt 8 Maescltewr, Tre'r-ddôl.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror.

Gwefan y Cyngor

Mae'r cyn-glerc yn parhau i weithio ar ran y cyngor ar y mater yma. Y newyddion diweddaraf yw y gobeithir i'r wefan fod yn fyw erbyn y 1af o Fawrth.

Biniau Halen Glanrafon

Adroddodd y Cynghorydd Rhian Evans nad oedd y bin yng Nglanrafon wedi'i drwsio o hyd. Gan nad oedd ymateb i'r ddau lythyr diwethaf cytunwyd i ffonio'r cyngor. Yn ogystal, adroddodd y Cynghorydd Enoc Jenkins fod y bin halen ar yr hewl rhwng Pensarn a Cwmslaid wedi torri. Cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Lampau Stryd Bont-goch

Adroddodd y Cynghorydd Emyr Davies nad oedd y lamp stryd ger mynedfa Gwaith Dŵr Bont-goch yn gweithio o hyd; nodwyd hefyd nad oedd y tyfiant o flaen y lamp stryd ger y bont yn Bont-goch (sy'n cuddio'r golau) wedi'i thocio. Gan nad oedd ymateb i'r ddau lythyr diwethaf cytunwyd i ffonio'r Cyngor Sir.

Coed am Ddim

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw awgrymiadau ynglŷn â lle i osod coeden neu goed, ond yn hytrach, cytunwyd i gefnogi unrhyw gais a gyflwynir gan Ysgol Tal-y-bont, a gofyn i'r Cyngor Sir os oes unrhyw goed neu goedden wedi'u neilltuo i Gyngor Ceulanamaesmawr i'w rhoi i'r Ysgol.

Tocio Cloddiau

Adroddodd y Cynghorydd Nest Jenkins nad oedd y ffosydd yng Nghwm Ceulan wedi'u clirio hyd yma, a bod dŵr yn parhau i orchuddio'r ffordd o'u herwydd. Nodwyd hefyd nad oedd y cloddiau ger Penlon-las wedi'u tocio ychwaith. Cytunwyd i ail-gysylltu â'r cyngor ar frys.

Golau Cae y Maes Chwarae

Adroddwyd nad oedd y golau ar y maes chwarae yn gweithio. Cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Ffos-Fudr

Yn dilyn llythyr Gwilym Jenkins ynglŷn â diflaniad Ffos-Fudr, ym mhapur bro Papur Pawb mis Chwefror, cytunwyd i'r Clerc ymchwilio ymhellach i'r mater.

Apel: Cais A130121, Old Coach House, Maes-y-felin, Tal-y-bont (Cais i ryddhau amodau 5, 6 & 7 o ganiatâd cynllunio A090372.)

Derbyniwyd hysbys bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn apel yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir. Gwahoddir unrhyw sylwadau ychwanegol gan y Cyngor. Nid oedd unrhyw sylw ychwanegol.

Ysgol Tal-y-bont

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

Yn ddiweddar aeth criw bach ohonon ni i Llangrannog i aros dros nos. Roedd y tywydd yn sych diolch byth.

Ar ôl cyrraedd a gweld ein hystafelloedd (doedd dim amser i ddadbacio) aethom i wneud ein gweithgaredd gyntaf, sef y cwods. Roedd pylau dŵr a mwd ar y trac.

Wedyn aethon ni ar y rhaffau isel. Yn gyntaf roedd yn rhaid i ni afael mewn siglen rhaff a swingio dros bwl bach o ddŵr. Dim ond ychydig ohonon ni lwyddodd i beidio glanio yn y dŵr.

Wedyn aethon ni ar y tamoplin, y rhaffau uchel ac i'r pwll nofio.

Ein hoff weithgaredd oedd marchogaeth. Enw ein ceffyl ni oedd Casper.

Ar ôl swper cawson ni fynd i'r siop ac i'r disgo. Roedden ni wedi blino'n lân erbyn hynny ac aethon ni i gysgu yn weddol gynnar!

Ein gweithgareddau olaf oedd gwbwgartio a'r wal ddringo. Llwyddodd pawb i fynd i'r top.

Roedd staff Llangrannog yn garedig iawn ac yn ein helpu bob amser. Diolch yn fawr.

Angharad a Beca

Nofio

Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y tymor hwn a gwelwyd llawer o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd yn erbyn plant o ysgolion eraill y cylch unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i'r canlynol am gyrraedd y gala terfynol:

Nia Benham - 4ydd Rhydd Blwyddyn 5

Tomos Jac Benjamin - 3ydd Rhydd Blwyddyn 3

Elinor Davies - 5ed Cefn Blwyddyn 3 a 4

Heledd Davies - 4ydd Broga Blwyddyn 5

Nia Benham - 4ydd Pili Pala Agored

Glain, Nia, Heledd, Libby - 2il Cyfnewid Cymysg Blwyddyn 5

Yr Urdd

Daeth Ruth Jên i'r ysgol i siarad am ei gwaith ac ateb ein cwestiynau am gelf.

Dywedodd Ruth Jên ei bod yn cael ei hysbrydoli gan yr amgylchedd, hyd yn oed y ddynes Gymraeg a nodau clust dafad. Dangosodd hi sawl llun gwahanol ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Yna, dangosodd ffilmiau animeiddio o ddefaid oedd yn ddiddorol iawn. Fe wnaeth esbonio ei lluniau gyda manylder. Roedd y profiad yn un diddorol iawn.

Nia Bl 5

Llyfrgell a Chastell

Fel rhan o'r gwaith thema diweddar am gestyll aeth plant y Cyfnod Sylfaen am drip i'r dref. Yn gyntaf aeth pawb i Lyfrgell y Dref a chael stori am ddraig gan Delyth Huws, cyn athrawes yn yr ysgol. Yna, dysgwyd rhai ffeithiau am gastell Aberystwyth yn Amgueddfa Ceredigion cyn mynd i'r castell go iawn. Roedd pawb wrth eu boddau'n cael cyfle i grwydro drwy'r tyrrau a rhedeg rhwng cerrig yr orsedd. Roedd hwn yn ddigwyddiad poblogaidd iawn gan y plant a hoffem ddiolch yn fawr i'r Gymdeithas Rien ac Athrawon am noddi'r wibdaith.

Cymdeithas y Chwirydd, Rehoboth

Traddodwyd gweddi gan Eiriona Metcalfe ar ddechrau'r cyfarfod yn festri Rehoboth ar brynawn Mawrth, 11 Chwefror, ac yna croesawodd ein gwraig wadd, Mrs Edwina Davies, Pen-Bont Rhydybeddau, sy'n ymddiddori ymhob math o waith llaw. Eglurodd fel y penderfynodd y trigolion lleol ddefnyddio adeilad Ysgol Gynradd Trefeurig fel canolfan gymdeithasol pan gaewyd yr ysgol. Roedd y clwb Dros 60 yn cyfarfod yno'n wythnosol, a phenderfynwyd creu murlun i'w hongian ar wal yr hen ysgol. Cymerodd y murlun flwyddyn a hanner i'w gwblhau, ac fe'i dadorchuddiwyd yn 2010 gan Mrs Valma Jones, Tal-y-bont, cyn-brifathrawes yr ysgol. Talwyd y diolchiadau am brynawn pleserus iawn gan Beti Wyn Davies, ac Ann Humphreys oedd yng ngofal y te.



Ar 25 Ionawr priodwyd Jonathan Lamb, Glandŵr, Tal-y-bont ag Angharad Davies yn Rhydychen. Pob dymuniad da i'r ddau.

Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Penweddig

Cynhaliwyd Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Penweddig yn ddiweddar ac rydym yn ymfalchio yn llwyddiant nifer o'r disgyblion sy'n byw yn ardal Papur Pawb.

Carwyn Hughes – 1af Grwp Roc / Offerynnol; Elan Elidyr – 3ydd Cerdd y Gadair; Medi Evans – 2il Unawd Offerynnol Bl 10 i 13; Geraint Howard, Ben Hughes Jones ac Elen Ebenezer – 1af Ensemble Sioe Gerdd; Nia Jones – 1af Grwp Dawnsio; Elen Ebenezer – 2il Deuawd Dawnsio; Niamh O'Donnell – 1af Unawd i ferched Bl 10 i 13, 1af Deuawd Bl 7 i 13 ac 2il Unawd Sioe Gerdd; a Jenó Evans Capten Bleddyn, y tŷ buddugol.



Niamh O'Donnell



Noson y Beirdd

Noson yng nghwmni tri bardd ifanc a drefnwyd ar gyfer 'Clwb Nos Wener' ar 14 Chwefror yn y Llew Gwyn. Aeth y tri bardd, Hywel Griffiths, Eurig Salisbury ac Osian Rhys Jones â ni ar deithiau o amgylch Cymru ac ymhellach trwy gyfrwng eu cerddi.

Ymwelon ni ag adeilad arbennig yn Abergwyngregyn, a mawr oedd chwerthin y gynulleidfa wrth wrando ar Osian yn adrodd am ei brofiad yno! Dangosodd Eurig ei ddyfeisgarwch arferol gan gynnwys cerdd am ei brofiad o golli'i waled ar y prom yn Aberystwyth. Gan fod Hywel newydd ddychwelyd o'i daith i Batagonia, cawsom glywed am yr hyn a wnaeth argraff arno yno ac a'i ysbrydolodd i lunio cerdd. Roedd cyflwyniadau'r beirdd, yn rhoi ychydig o gefndir i'w cerddi, yn ddadlennol a ffraeth.

Diolch i Hywel ac Alaw (Y Garth, Tal-y-bont) am drefnu noson hynod o ddifyr. Y mis nesaf, 25 Ebrill, bydd 'Brigyn' yn dod atom i berfformio.

Y Gair Olaf



Gofynnwyd i Ruth Jên lunio erthygl ar gyfer y golofn Y Gair Olaf ond dyma a gafwyd! Mae 'na hen ddywediad: Mae llun yn mynegi mil o eiriau!



'Chwythed y gwynt o'r dwyrain, rhued y storm o'r môr. Ry'n ni yma o hyd!'

Erglodd

Pan fyddai fy nghyfoedion a minnau yn mynd at Dafydd Jenkins, (brawd William Ynys Greigiog) Erglodd i godi tatws ar y Sadyrnau yn y 1940au, ni sylweddol fod y fferm mor hen a bod cofnodion amdani yn y dogfennau swyddogol fwy na saith ganrif yn ôl. Wrth sôn am hynny mae'r diweddar R.J. Thomas yn dweud hefyd fod y tŷ a'i gefn at y ffordd dyrpeg gynt ac yn wynebu'r hen ffordd blwy – y ffordd drwy'r coed y tu ôl i Daliesin a Thre'r-ddôl y byddaf yn ei cherdded yn aml. R.J. Thomas oedd Golygydd cyntaf Geiriadur Prifysgol Cymru, ac ynddo cyfeirir at Erglaw, Erglawdd ac Eurglawdd. Gwyddom mai ystyr Eurglawdd yw 'cloddfa aur', ac o gofio am godi plwm o grombil y mwynglawdd cyfagos nid yn annisgwyl y galwyd y fferm yn Eurglawdd, ac Erglodd.

Fe all mai clawdd arbennig yn cwm pasu'r tir sy'n esbonio'r enw yn ôl awgrym arall. Bu llawer o sôn am faen, neu ddau o bosibl, uchel cynhanesyddol a welid yn un o gaeau Erglodd ac o geisio'i symud y byddai'r byd yn dod i ben!. Dychwelaf at hanes y meini y mis nesaf a sôn mwy am Jinkins Erglodd. Un teulu diddorol fu'n amaethu yn Erglodd gynt oedd teulu Thomas a Mary Davies, a'u plant Elizabeth a John ddaeth yno o Lanwrin ym 1843. Dengys cyfrifiad 1851 fod morwyn, tri gwas, ac 'errand boy' yn gweithio ar y fferm 120 acer. - 2 forwyn a thri gwas ym 1861, a gwas a 2 forwyn ym 1871. Addolai'r teulu yn Rehoboth a gwasanaethodd Thomas Davies fel blaenor hyd ei farw ym 1876 a'i fab John yn gyd-flaenor â'i dad.

Bu 'John Davies, Erglodd' yn enw adnabyddus ymhlith y Methodistiaid, yn Llywydd Cyfarfod Misol Gogledd Ceredigion, yn gynrychiolydd i'r Sasiynau, yn un o benaethiaid y Cyfarfodydd Ysgolion Sul, ac yn holwyddorydd plant gyda'r medrusaf yng Nghymru. Wrth hel atgofion mai mab disglair Ynys Tudur, Doctor Thomas Richards, yn dweud mai John Davies fu'n arwain gyda chael addoldy yn Ynys Tudur fel cangen o Rehoboth ym 1865. Dywed Doc Tom hefyd fod John Davies a'i gyd-flaenoriaid wedi cael addewid gan Syr Pryse Pryse Gogerddan ym 1867 am dir at gladdfa, capel a thŷ capel yn. Nhal-y-bont, gydag aelodau Rehoboth, yn ogystal ac aelodau Nasareth a agorodd ym 1869, yn cael eu claddu yn y fynwent yn ymyl y capel. Symudodd John Davies ei aelodaeth i Nasareth, fe'i hetholwyd yn

flaenor a rhoddodd gychwyn da i'r achos hyd ei farwolaeth ym Mehefin 1887.

Richard Phillips o Lanilar, a'i wraig Elizabeth o Lanbadarn Fawr oedd yn Erglodd ym 1891, a dilynwyd nhw gan John Griffith Stephens a ddaeth o Dy'n Cwm, Benrhyn-coch, ei wraig Margaret, a 9 o blant. Symudwyd i Danllan, Llangynfelyn, a gan fod mam yn mynd yno i gynorthwyo Sarah ac Eunice roedd Iorwerth a minnau yn mynd gyda hi ar y Sadwrn. Nid chwarae a wnaem ond cyflawni tasgau a roddai David Valentine y ffermwr inni. Roeddem yn cael dwy res o datws gan y teulu caredig a byddem yn brysus yn eu codi adeg 'yr wythnos datws' (hanner tymor erbyn hyn) a'u cario i sied ein cartref yn 2 Stryd Isa ('Terrace Row'), Taliesin.

Soniais am un o feibion Tanllan, y Parchedig John Griffith Stephens yn fy lllith 'Offeiriad y Figyn', yn rhifyn Mawrth 2012. Pan oedd yn guraid yn Llanelli roedd yn un o chwaraewyr Parc y Strade. Roedd yn nhim Cymru ym 1922 yn erbyn Ffrainc ym Mharis ac ef a gafodd un o'r tri chais a sicrhodd fuddugoliaeth. Ond fel arfer ni chafodd camp y Cymro sylw gan y gohebwyr Saesneg.

W.J. Edwards

	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	
Glanrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774		

BLAS MAWRTH GAN EICH PLAS LLEOL

PASTAI BUGAIL NANTEOS

Mewn llyfrau coginio cynnar roedd y pryd yma yn ffordd o wneud pryd arall gyda chig rhost dros ben. Weithiau byddai'r tatws stwnsh yn cael ei roi ar hyd y gwaelod yn ogystal ag ar y top!
Mwynhewch! Nigel - Chef Patron

Cynhwysion

50g toddion (dripin) cig eidion
1 winwsyn mawr a 1 genhinen fawr wedi ei thorri'n fân
2 lwy fawr o olew olewydd
900g o friwigig cig oen
2 lwy fawr o flawd plaen
4 deilen llawryf
4 sbrigrin o deim ffres
2 lwy de o rinflas brwyniad
2 din o domatos wedi'u malu
4 lwy de o saws Caerwrangon
450ml o stoc cyw iar neu gig oen
Halen a phupur du wedi eu falu
Ar gyfer y tatws stwnsh
700g o datws
55ml o laeth
75g o fenyn
1 melynwy wŷ

Dull Poethwch y popty i 400F.

Poethwch doddion y cig eidion mewn dysgl gaserol fawr. Ychwanegwch y winwsyn a'r cennin a'u coginio am 5 munud. Poethwch yr olew mewn padell ffrio fawr; ychwanegwch y briwigig a'i goginio nes bydd yn frown. Trowch y winws a'r cennin, ac ychwanegwch y blawd (sy'n tewhau'r cymysg). Cymhysgwch nhw'n dda, ac yna ychwanegwch y dail llawryf, y teim, a'r rhinflas brwyniad. Cymysgwch y tomatos, y stoc a'r saws Caerwrangon. Ychwanegwch y briwigig at y ddysgl gaserol ac yna arllwyswch y cymysgedd stoc i mewn i'r badell ffrio er mwyn crafu'r holl friwigig oddi arno cyn ei ychwanegu eto at y cymysgedd yn y ddysgl gaserol. Codwch y cymysgedd i'r berw, ychwanegwch halen a phupur a'i fudferwi am tua 45 munud. Ar gyfer y tatws stwnsh, berwch y tatws ac yna eu disbyddu cyn eu rhoi mewn powlen lân. Ychwanegwch y llaeth, y menyn a'r melynwy a stwnsiwch y cyfan gyda'i gilydd nes eu bod yn llyfn. Ychwanegwch halen a phupur du os dymunwch. Rhowch y stwnsh tatws ar ben y cig yn esmwyth. Pobwch yn y popty nes bydd yr wyneb yn felyn/frown ac yn byrllymu (tua 20 munud).



Plas Nanteos

Taith a Phaned

Dewch i weld beth sydd mor arbennig am Blas Nanteos. Dewch am daith sydd yn sôn am hanes y plasty godidog ac ymweld â'r ystafelloedd moethus, unrhyw brynawn o'r wythnos. Mwynhewch te prynhawn sydd yn cynnwys brechdanau, sgon jam a hufen, barabrith, cacennau a bisgedi, wedi eu pobi yn ffrîs ar eich cyfer.

Mae'r daith a phaned yma ar gael i unigolion a grwpiau, ac os oes deg person neu fwy cewch 10% oddi ar y bil os soniwrch am yr hysbyseb yma.

Cinio Dydd Sul

Achlysur arbennig, cwrdd â ffrindiau, teulu neu eisiau mwynhau cinio dydd Sul safonol heb y gwaith paratoi a'r holl lestri budur? Ymlaciwrch neu archwiliwrch yr ardd a'r goedwig eang o'i gwmpas cyn mwynhau eich cinio. Mae'r fwydlen yn newid yn wythnosol, ond mae yna bob anser asen o gig eidion, sy'n cael ei dorri wrth y bwrdd yn ogystal ag opsiwn llysieuol a physgodyn y diwrnod. Mae ein cinio tri chwrs yn cael ei weini bob dydd Sul rhwng 12yp a 2yp.

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'n safle we, ac wrth gwrs, cynghorwn eich bod yn cadw bwrdd o flaen llaw.

Nanteos, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4LU t:01970 600522

nanteos.com



Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch

Croesawyd Mr John Hughes, Bow Street, i'r cyfarfod ar nos Lun, 17 Chwefror, a chafwyd hefyd gwmni ei ferch fach chwech oed, Lisa, a fu'n ein diddanu drwy adrodd a chanu, a'n dysgu i gyfrif o un i ddeg yn yr iaith Rwsieg. Yn dilyn ymweliad â Rwsia, penderfynodd John fynd i fyw i'r wlad honno am gyfnod gan ddysgu'r iaith, a chawsom lawer o hanesion difyr am y cyfnod hwnnw ganddo. Cyfarfu â'i wraig yno a dyna lle priododd y ddau, a hefyd lle ganwyd Lisa. Dangosodd inni luniau trawiadol a dynnodd yn ystod y cyfnod yr oeddent yn byw yn Rwsia, ond erbyn hyn, maent wedi ymgyrtreftu yn Bow Street. Diolchwyd i John ac i Lisa am noson ddiddorol iawn.

Daeth nifer dda ynghyd i ddathlu Gŵyl Dewi ym Mwyty M.G'S Aberystwyth. Ein gwraig wadd eleni oedd Angharad Merwa ac ar ôl swper blasus iawn cawsom wledd arall ond o liw y tro hwn. 'Roedd gan Angharad gysylltiad gyda'r India, a chawsom weld ei chasgliad helaeth o saris. Gwelsom yn gyntaf sut oedd gwisgo sari gan weld y bais lliwgar a oedd yn sylfaen i bob dim ac yna'r flows fechan a weddai'n union i liw'r sari ac yna'r chwe llathen o ddefnydd lliwgar a fyddai'n cael ei lapio'n gelfydd o amgylch y corff.

Roedd ganddi lond cêr mawr, a chawsom weld yr holl saris o bob lliw a llun pob un wedi ei wneud o sidan a nyddwyd gan y brodorion tlawd rhai ohonynt a addurnwyd â brodwaith, a gleiniau. I orffen cawsom weld y casgliad bychan o drowsus a "Kameez" neu "tunics hirion" a wisgir yn aml erbyn hyn, hwythau hefyd yn addurniedig iawn.

Wrth arddangos y saris clywsom nifer o anecdotau am fywyd yn yr India ac wrth ddathlu Gŵyl Dewi cael cipolwg ar fywyd mewn gwlad lle mae tlodi enbyd. Croesawyd pawb a thalwyd y diolchiadau gan Eryl Evans.

CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddid ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2014.

Yr ysgrifennydd yw:
Mary Jones

Lleifor, 27 Glan Rheidol
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth SY23 3GG
01970 624408

Ffermwyr Ieuainc Tal-y-bont



Cafodd cinio blynyddol Clwb Ffermwyr Ieuainc Tal-y-bont ei symud ymlaen ddau fis eleni er mwyn cael amser ychwanegol i baratoi ar gyfer cystadleuaeth 'Hanner awr o adloniant'.

Bu'r clwb yn cystadlu yn Theatr Felinfach ar nos Wener, 28 Chwefror ar y gystadleuaeth honno. Mae'n gyfle i'r aelodau arddangos eu doniau ac hefyd i baratoi adloniant gwreiddiol a gwahanol. Y beirniaid eleni oedd Mr William Evans a Mr Aeron Pugh a chafwyd beirniadaeth lawn gan y ddau a oedd yn disgrifio cyfraniad pob clwb.

Nos Wener, 7 Mawrth, mewn dawns dewis swyddogion y sir, cafodd Geraint Jenkins, Cerrigaranau ei ddewis yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn. Bydd Geraint yn cael ei anrhydeddu yn rali'r sir. Llongyfarchiadau mawr i ti.



Geraint Jenkins, Cerrigaranau

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol eleni, yn ôl yr arfer, yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth ar nos Sadwrn, 8 Mawrth am 7.30. Mr William Evans, Hendreseifion, Llanwrin oedd ein gŵr gwadd am y noson.

Ar nos Fawrth, 11 Mawrth, cynhaliwyd cyngerdd o adloniant gan glybiau Ffermwyr Ieuainc Tal-y-bont, Bro Ddyfi a Llangwryfon yn y Neuadd Goffa.

GJ

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones



Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Cai yn sgorio un o'r goliau yn y fuddugoliaeth yn erbyn Machynlleth



Teigars Tal-y-bont, y tîm dan 9 oed

'Gêm syml' yw pêl-droed yn ôl y gwybodusion ac mae plant yn medru dangos ar adegau mai gwir yw'r hen ystrydeb. Mae'r rhai sy'n cael y pleser o wyluo tîm dan 9 mlwydd oed Teigars Tal-y-bont yn adnabod yn dda pa mor dalentog yw chwaraewyr y tîm hwn gyda'u pasio slic a'u rheolaeth gelfydd o'r bêl. Nid oes prinder chwaith o goliau. Er bod y tîm yn ennill bron bob gêm, nid hynny sy'n codi calon y gwyliwr, ond brwdfrydedd a sgiliau'r chwaraewyr. Clod felly i'r hyfforddwyr Mark Milverton ac Antony Foulkes ac i holl wirfoddolwyr Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont a'r cylch.




Oisin yn rheoli'r bêl

Noson a Milgi Rasys Ceffylau

Nos Sadwrn – 12 Ebrill
7.30pm

Llew Gwyn, Tal-y-bont



Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Isdeitlau
Subtitles



35 Diwrnod
9.00
Yn dechrau
23 Mawrth

Corff, cyfrinachau, a llong
stâd o amheuan. Cytres
drama newydd lle mae
bob diwrnod yn cyfrif.

#35diwrnod
s4c.co.uk